

Allison Kirkby
Prif Weithredwr, Grŵp BT

Y Fonesig Melanie Dawes
Prif Weithredwr
E-bost: ChiefExecutive@ofcom.org.uk

Trwy e-bost

5 Hydref 2026

Annwyl Allison,

Rwy'n ysgrifennu i nodi disgwyliadau Ofcom yn dilyn cyhoeddiad BT heddiw ei fod wedi cytuno i gaffael TalkTalk Group.

Mae'r sefyllfa sy'n wynebu TalkTalk yn ddigynsail, ac mae methiant posibl y cwmni yn cyflwyno risg annerbyniol i ddefnyddwyr. Mae TalkTalk yn darparu gwasanaethau band eang i tua 2.5 miliwn o gwsmeriaid ledled y DU, gan gynnwys cwsmeriaid manwerthu TalkTalk eu hunain a'r rhai sy'n cael eu gwasanaethu gan ystod eang o ddarparwyr cyfathrebu sy'n prynu gwasanaethau cyfanwerthu gan PXC.

Mae'r sylfaen cwsmeriaid hon yn cynnwys nifer sylweddol o ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys poblogaeth sylweddol o ddefnyddwyr teleofal, yn ogystal â chwsmeriaid busnes a gweithredwyr Seilwaith Cenedlaethol Critigol. Rydym yn arbennig o bryderus am y ffaith nad oes sicrwydd ynghylch faint o gwsmeriaid agored i niwed sy'n cael eu gwasanaethu'n anuniongyrchol trwy ailwerthwyr sy'n gweithredu ar rwydwaith TalkTalk. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd rhoi mesurau diogelu defnyddwyr effeithiol ar waith pe bai rhywbeth yn tarfu ar wasanaethau.

Yn ogystal, mae TalkTalk yn darparu gwasanaethau llais i'w gwsmeriaid ei hun ac yn galluogi gwasanaethau llais i gwsmeriaid sydd wedi portio'u rhif o TalkTalk i ddarparwr arall. O ganlyniad, byddai effaith unrhyw fethiant yn ymestyn ymhell y tu hwnt i sylfaen cwsmeriaid manwerthu uniongyrchol TalkTalk, gyda chanlyniadau sylweddol i ddefnyddwyr a busnesau ledled sector cyfathrebu'r DU.

Mae maint a natur y gwasanaethau hyn yn golygu y gallai unrhyw amhariad difrifol ar y gwasanaethau gael effaith sylweddol ar gwsmeriaid. Ar ôl cyfnod hir o ansicrwydd ynghylch dyfodol TalkTalk, rydym yn croesawu'r posibilrwydd o ddatrysiaid masnachol sy'n diogelu cwsmeriaid ac yn sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu hanfodol yn parhau. Mae'r trafodiad hwn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i brosesau statudol a rheoleiddiol perthnasol, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi Hysbysiad Ymyrraeth budd y cyhoedd. Bydd Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a'r CMA yn ystod y broses honno.

Y fframwaith rheoleiddio

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i wneud yn glir pe bai BT yn caffael TalkTalk yn llwyddiannus, y byddai Ofcom yn parhau i gymhwyso'r fframwaith rheoleiddio perthnasol yn unol â'i ddyletswyddau a'i bwerau statudol. Mae hyn yn cynnwys:

- **Yr Amodau Cyffredinol**, sy'n darparu amddiffyniadau pwysig i gwsmeriaid, gan gynnwys cwsmeriaid agored i niwed;
- **Y fframwaith diogelwch telathrebu**, sy'n rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr i nodi a lleihau'r risg o achosion sy'n peryglu diogelwch eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau, a pharatoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath;

- **Y rhwymedigaethau Pŵer Marchnad Sylweddol (SMP) a osodir ar BT** i fynd i'r afael â phryderon cystadleuaeth sy'n deillio o'i SMP, ac sy'n caniatáu i ddarparwyr cystadleuol gael mynediad at rwydwaith Openreach a chystadlu'n deg i wasanaethu defnyddwyr a busnesau;
- **Ymrwymïadau BT**, sy'n rhan bwysig o'r fframwaith sy'n rheoli'r berthynas rhwng BT ac Openreach ac sy'n cefnogi'r ffordd y mae Openreach yn trin ei gwsmeriaid, a byddem yn disgwyl i BT ac Openreach barhau i'w bodloni.

Mae'r rhwymedigaethau hyn yn hanfodol i ddiogelu defnyddwyr, cynnal gwytnwch a diogelwch rhwydweithiau cyfathrebu a chefnogi cystadleuaeth effeithiol trwy fynediad teg i rwydwaith Openreach. Mae'n hanfodol bod amddiffyniadau yn cael eu cynnal trwy gydol unrhyw drawsnewid, yn enwedig i ddefnyddwyr agored i niwed.

Mae'r hysbysiad ymyrraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA ymchwilio ac adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 19 Hydref. Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses hon, byddwn yn ystyried yn ofalus beth yw'r goblygiadau ar gyfer materion sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl.

Ein dull o reoleiddio

Rydym wedi ystyried y sicrwydd rheoleiddiol penodol a geisiwyd yn eich llythyr, dyddiedig 2 Hydref. Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau digynsail sy'n arwain at BT i geisio caffael TalkTalk. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle cyfyngedig a fu i gynnal gwiriadau a gwerthusiadau manwl, ynghyd â maint a chymhlethdod y gwaith y byddai angen ei wneud i sefydlogi'r busnes a mudo ei gwsmeriaid oddi ar seilwaith rhwydwaith etifeddol.

Ni all Ofcom gyfyngu ar ei ddisgresiwn na rhoi sicrwydd ymlaen llaw na fyddai'n ymchwilio nac yn cymryd camau gorfodi mewn amgylchiadau penodol, a deallwn nad ydych yn ceisio hyn. Ni allwn benderfynu ymlaen llaw sut y byddem yn ymateb i faterion nad ydynt yn hysbys eto.

Fodd bynnag, gallwn eich sicrhau, yn unol â'n dyletswyddau statudol, egwyddorion rheoleiddio a chanllawiau gorfodi cyhoeddedig, y byddem yn parhau i ddilyn ein dull sefydledig, gan weithredu'n rhesymol, yn bragmatig ac yn gymesur mewn unrhyw benderfyniadau a wnawn. Mae hyn yn cynnwys penderfynu beth yw'r flaenoriaeth weinyddol ar gyfer camau gorfodi, a'n hagwedd at faterion sy'n deillio o rwydwaith ac offer etifeddol TalkTalk.

Yn fwy cyffredinol, byddai'r fframwaith rheoleiddio yn parhau i fod yn berthnasol, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n ymwneud â pheidio â gwahaniaethu ac ansawdd y gwasanaeth. Yn unol â'n dyletswyddau statudol a'n hegwyddorion rheoleiddio, byddem yn ystyried sut mae amod SMP penodol yn berthnasol i unrhyw set benodol o ffeithiau ar rinweddau'r achos unigol ac yn unol â'r fframwaith cyfreithiol perthnasol. Yn yr un modd, wrth ystyried unrhyw rwymedigaethau newydd, byddai Ofcom yn asesu cymesuredd yn unol â'r fframwaith statudol a rheoleiddiol perthnasol, fel y byddem yn ei wneud ar gyfer unrhyw achos newydd o reoleiddio.

Rydym yn croesawu parodrwydd BT i ymgysylltu'n adeiladol, a byddem yn disgwyl i chi dynnu sylw at unrhyw faterion cydymffurfio posibl cyn gynted ag y byddant yn dod i'r amlwg. Os nad yw adfer llawn ac uniongyrchol yn rhesymol ymarferol, byddem yn disgwyl i BT ymgysylltu â ni, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith, a chreu cynllun ac amserlen glir ar gyfer cydymffurfio. Mewn unrhyw senario o'r fath, byddem yn rhoi pwyslais arbennig ar ddiogelu defnyddwyr a chystadleuaeth, a chynnal diogelwch a gwytnwch gwasanaethau.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn cydnabod yr heriau gweithredol a allai godi a byddem yn croesawu ymgysylltu parhaus, adeiladol â BT ac Openreach wrth i faterion ddatblygu. Rydym wedi ymrwymo i gynnal deialog agored a phragmataidd, tra'n parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau goruchwyllo trwy Uned Monitro Openreach a'n gweithgareddau goruchwyllo mewn perthynas â chystadleuaeth,

diogelu defnyddwyr, diogelwch a gwytnwch. Byddwn yn parhau i adrodd ar ein gweithgareddau goruchwyllo er mwyn rhoi tryloywder i'r farchnad.

Yn unol â'n hymrwymiad i dryloywder, byddwn yn cyhoeddi copi o'r llythyr hwn ar wefan Ofcom, ochr yn ochr â'ch llythyr, dyddiedig 2 Hydref.

Yn gywir

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Melanie Dawes', is positioned to the left of a vertical line.

Y Fonesig Melanie Dawes